
Met Office



# Atgofion tywydd

**Trosolwg**

Ydych chi'n cofio sut oedd y tywydd ar eich pen-blwydd diwethaf neu'ch hoff wyliau? Beth a'i gwnaeth yn arbennig? A oedd hi'n bwrw eira neu a oedd y tywydd yn ogoneddus ar y diwrnod arbennig hwnnw? Bydd y gweithgaredd hwn yn rhoi cyfle i chi drafod gyda'ch teulu a'ch ffrindiau wahanol ddigwyddiadau tywydd sydd wedi digwydd yn y gorffennol ac sy'n dod ag atgofion i'r cof.




**Amser gofynnol**

60 munud

**Deunyddiau gofynnol**

- Rhyngrwyd
- Platfformau ffôn/Skyp /digidol ar gyfer sgyrsiau
- Papur/pennau ysgrifennu
- Deunyddiau amrywiol i addurno
- Jar neu flwch i roi'r atgofion ynddo





## Camau'r gweithgaredd

### 01 Beth yw eich atgofion tywydd?

Mae gan lawer o bobl nifer o atgofion tywydd gwahanol sy'n eu cysylltu â lle, amser neu ddigwyddiad arbennig, er enghraifft pen-blwydd neu wyliau arbennig. Trafodwch gyda'ch teulu neu ffrindiau am ddigwyddiadau y maen nhw'n eu cofio sy'n arbennig iddyn nhw.

Gallai rhai cwestiynau a awgrymir eu gofyn gynnwys y rhain:

- Ar ba ddiwrnod a/neu flwyddyn y digwyddodd y digwyddiad tywydd hwn?
- Allwch chi gofio'r amser?
- Sut oedd yn gwneud I chi deimlo?
- Pam roedd hyn yn arbennig i chi?

### 02 Ymchwil

Gan ddefnyddio **tudalennau** Llyfrgell ac Archif y Swyddfa Dywydd neu ein **hadroddiadau dyddiol ar y tywydd**.

A allwch chi ymchwilio i unrhyw dystiolaeth neu ddata tywydd o'r digwyddiad y mae'ch teulu neu ffrindiau wedi bod yn siarad amdano?

Wrth ymchwilio, mae gennym ychydig o awgrymiadau a chwestiynau isod i'ch annog i feddwl:

- Dechreuwch chwilio am ddeunydd archifol yn ôl dyddiad y digwyddiad.
- A oedd hyn yn ddigwyddiad tywydd hanesyddol?
- A oedd enw storm ynghlwm wrth y digwyddiad hwn? Gallwch ddod o hyd i bob enw storm **yma**.

**Awgrym**
Ygallwch chi hefyd ddefnyddio ein tudalennau hinsawdd **yma** i dynnu data pellach ar gyfer gwahanol ddyddiadau.

### 03 Dewch â'ch atgof yn fyw

Gan ddefnyddio'r wybodaeth dywydd rydych chi wedi'i chasglu o'n tudalennau, a allwch chi ddod â'r straeon hyn yn fyw? Er enghraifft llun neu adroddiad tywydd gyda data a ffeithiau tywydd o gwmpas y dydd. Ar ôl ei gwblhau gallwch chi eu cadw mewn lle arbennig trwy wneud llyfr atgofion tywydd neu jar dywydd i roi'r rhain ynddi.


© Hawlfraint y Goron 2020, Y Swyddfa Dywydd 01248